

Eich cyf • Your ref :

Gofynner am • Please ask for : Mr Robert Sully

Fy nghyf • My ref : *RS/JP*

Llinell Uniongyrchol • Direct Line: 01267 246522

Y dyddiad • Date : *Hydref 2016*

Annwyl Riant/Gwarcheidwad

### Presenoldeb Ysgol a Deilliannau i Blant

Rydym ni yma yng Nghyngor Sir Caerfyrddin, mewn partneriaeth â'n hysgolion, yn gwbl ymroddedig i sicrhau bod pob plentyn sy'n mynd i'r ysgol yn ein sir yn cael yr addysg orau posibl ac yn cael cefnogaeth i gyrraedd ei botensial llawn.

Ym mis Medi 2013, ysgrifennais lythyr agored at rieni a gwarcheidwaid disgyblion yn ysgolion Sir Gaerfyrddin yn gofyn am eich cydweithrediad i sicrhau bod eich plant yn mynychu'r ysgol yn gyson, oherwydd bod hyn mor bwysig ar gyfer eu haddysg a'u cyfleoedd bywyd yn y dyfodol. Yn fy llythyr, pwysleisiais y cysylltiad amlwg rhwng presenoldeb cyson yn yr ysgol a chyflawniadau arholiadau ledled Cymru drwy gyfeirio at y tabl isod, sy'n dangos yn glir ei bod yn hanfodol bwysig iddynt fynd i'r ysgol yn rheolaidd, er mwyn iddynt lwyddo yn eu harholiadau.

% Presenoldeb	% y disgyblion a gyflawnodd 5A* - C yn safon TGAU
95+	72
90 – 94.9	57
80 – 89.9	30
Llai nag 80	6

Mae'n amlwg bod **presenoldeb da yn yr ysgol yn cyfrannu at ganlyniadau da**. Efallai ei bod yn beth amlwg i ddweud, serch hynny mae'n wir, os nad yw'r plant yn yr ysgol nid yw'r athrawon yn gallu eu haddysgu.

Rydym yn falch iawn yma yn Sir Gaerfyrddin bod canlyniadau TGAU ein disgyblion wedi bod yn gwella'n raddol dros y blynyddoedd diwethaf, ac yn ystod y tair blynedd diwethaf mae ein

disgyblion, trwy gymorth rhagorol eu hysgolion, wedi cael y canlyniadau gorau erioed yn eu harholiadau. Gwelwyd cynnydd tebyg mewn asesiadau athrawon yng Nghyfnodau Allweddol 3.

Yn sicr, yn ein barn ni, nid cyd-ddigwyddiad yw'r gwelliant cydamserol yn y safonau dros y blynyddoedd diwethaf, o ran asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau, ynghyd â gwell presenoldeb yn yr ysgol. Mae'r **dystiolaeth** yn lleol ac yn genedlaethol yn **cadarnhau**, er mwyn **cyrraedd eu potensial addysgol llawn mae angen i blant fynd i'r ysgol yn rheolaidd**.

Mae profiad wedi dangos bod presenoldeb da o oedran ifanc yn yr ysgol gynradd yn sefydlu patrwm o ymddygiad sy'n parhau i'r ysgol uwchradd.

Rwyf am ddiolch i'r holl rieni a gwarcheidwaid am eich cefnogaeth dros y blynyddoedd diwethaf yn gwella presenoldeb yn yr ysgolion. Wrth i ni ddechrau ar flwyddyn ysgol newydd, mae'n gyfle amserol i ni gyd atgoffa ein hunain am bwysigrwydd presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol.

Rydym yn gwerthfawrogi bod gwyliau yn ystod y tymor yn gallu bod yn her i rai teuluoedd. Fodd bynnag, mae'r cyswllt rhwng presenoldeb da yn yr ysgol a deilliannau i blant mor gryf a chlir, rydym yn gadarn o'r farn bod cyfiawnhad dros barhau i gymhwyso polisi sy'n nodi na ddylai plant gael eu tynnu o'r ysgol fel mater o drefn yn ystod tymor ysgol at ddiben gwyliau.

Nid yw'r gyfraith yn rhoi hawl i rieni dynnu plant o'r ysgol er mwyn mynd ar wyliau. Mae gan benaethiaid bŵer **dewisol** i ganiatáu absenoldeb wedi'i awdurdodi pan fo rhieni yn gofyn am ganiatâd, ond ni ddylai rhieni dybio y bydd caniatâd yn cael ei roi. Bydd **Penaethiaid** yn ystyried pob achos ar ei rinweddau ei hun, a **byddant yn arfer eu disgrisiwn yn seiliedig ar fudd pennaf addysg a lles y plentyn**. Rwy'n gofyn unwaith eto am gydweithrediad rhieni a gwarcheidwaid i beidio â threfnu gwyliau teulu yn ystod y tymor. Lles pennaf eich plant sy'n ganolog i ni ac mae pob un ohonom yn y gwasanaeth addysg yn credu'n gryf ei bod yn hanfodol bwysig nad yw plant yn cael eu tynnu o'r ysgol oni bai na ellir osgoi hyn o gwbl.

Hefyd, rwyf am ailadrodd fy ngheisiadau blaenorol y dylid trefnu apwyntiadau arferol, megis apwyntiadau â'r deintydd, prawf llygaid, ac ati, y tu allan i oriau ysgol lle bynnag y bo'n bosibl. Wrth gwrs mae'n rhaid i blant fynd i apwyntiadau meddygol, orthodonteg neu wasanaethau iechyd neu ofal proffesiynol eraill y mae arnynt eu hangen, ond gofynnwn yn garedig i chi drefnu ymgynghoriadau nad ydynt yn rhai brys y tu allan i oriau ysgol.

Os ydych yn cael anawsterau o ran presenoldeb eich plentyn, siaradwch â'ch ysgol, a fydd yn gallu trefnu cymorth ar eich rhan.

Mae'r cynnydd yr ydym wedi'i wneud dros y blynyddoedd diwethaf drwy weithio gyda'n gilydd er mwyn sicrhau presenoldeb da yn yr ysgol yn sylfaen dda i'n plant wrth iddynt baratoi ar gyfer eu bywydau yn y dyfodol. Rwy'n ddiolchgar i chi am eich cymorth hyd yn hyn, ac edrychaf ymlaen at barhau i weithio gyda chi er mwyn sicrhau bod plant Sir Gaerfyrddin yn cael yr addysg orau posibl yn eich ysgolion a chael y cyfleoedd gorau posibl mewn bywyd.

Yn gywir



R. A. Sully  
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant